Archwilio Cymru
Audit Wales

# Mewn cyfyng-gyngor? Rheoli ffyrdd Sir Gâr

Cyngor Sir Gâr

Gorffennaf 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan Adran 17(2)(d) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

## Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys

Ciplun archwiliad 4
Ffeithiau a ffigyrau allweddol 6
Ein canfyddiadau 7
Argymhellion 14
Atodiadau 16
1 Ynglŷn â'n gwaith 17
2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn 18

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Yn yr archwiliad hwn fe wnaethom ystyried pa mor effeithiol y mae Cyngor Sir Gâr (y Cyngor) yn cynllunio, yn ariannu ac yn rheoli ei rwydwaith priffyrdd. Fe wnaethom ystyried sut y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn sicrhau gwerth am arian heddiw ac yn y dyfodol.

2 Roedd hyn yn cynnwys ystyried sut y mae'r Cyngor yn taro cydbwysedd rhwng pwysau byrdymor a deilliannau tymor hwy, yn enwedig y cydbwysedd rhwng cynnal a chadw ataliol ac adweithiol.

3 Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Cyngor gynnal a chadw ei briffyrdd dan Ddeddf Priffyrdd 1980. Mae'r rhwydwaith priffyrdd yn cynnwys ffyrdd dosbarth A, B, C a ffyrdd diddosbarth. Nid yw rhwydwaith priffyrdd y Cyngor yn cynnwys cefnffyrdd y mae Llywodraeth Cymru'n eu cynnal a'u cadw.

## Pam fod hyn yn bwysig

4 Mae'r rhwydwaith priffyrdd yn cefnogi bywyd beunyddiol ledled Sir Gâr. Mae'n galluogi pobl i deithio'n ddiogel ar gyfer gwaith a hamdden, yn galluogi busnesau i weithredu, ac yn galluogi gwasanaethau hanfodol megis ysgolion, cyflenwi bwyd a gofal iechyd i weithio. Mae'r rhwydwaith hefyd yn ategu llesiant cymunedol a'r economi leol.

5 Ond mae cyflwr y rhwydwaith dan bwysau sylweddol. Mae pwysau'n cynnwys patrymau tywydd a theithio sy'n newid a gostyngiadau hirdymor mewn cyllid. Gall y pwysau hynny effeithio ar allu'r Cyngor i gynnal a chadw ffyrdd i safon dderbyniol ar hyd a lled ei rwydwaith cyfan, o ran gwneud hynny heddiw a sicrhau bod hyn yn parhau yn y dyfodol.

## Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

6 Mae'r Cyngor yn rheoli priffyrdd yn erbyn cefnlen sy'n gryn her. Mewn termau real, mae ei gyllid ar gyfer priffyrdd a ffyrdd wedi gostwng 40% ers 2008-09. Mae'r penderfyniadau hynny wedi lleihau gallu'r Cyngor i reoli ei rwydwaith priffyrdd mewn ffordd gynaliadwy a chost-effeithiol. Mae ffocws y Cyngor bellach yn seiliedig ar risg ac yn fwyfwy adweithiol yn hytrach nag ataliol. Mae hyn yn cynyddu'r risg y bydd cyflwr ffyrdd yn y dyfodol yn dirywio ac y bydd costau'n cynyddu.

7 Dengys data'r Cyngor ei hun nad yw ei ddull cyfredol yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Mae ei ddull seiliedig-ar-risg wedi ei alluogi i gynnal cyflwr ffyrdd dosbarthiadol. Ond mae hyn wedi bod ar draul ffyrdd diddosbarth, sef bron hanner y rhwydwaith. Dengys data'r Cyngor gynnydd yn nifer y ffyrdd diddosbarth y mae angen gwneud gwaith brys iddynt. Ar draws y rhwydwaith cyfan, fe wnaeth nifer y tyllau y rhoddwyd gwybod amdanynt gynyddu 456% rhwng 2020 a 2024. Ar y cyfan, gallai cyflwr dirywiol y ffyrdd ddwyn goblygiadau sylweddol ar gyfer trigolion, busnesau a chymunedau sy'n dibynnu ar y rhwydwaith priffyrdd ar gyfer mynediad a chysylltedd.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

8 Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i roi cymorth i wella.

9 Maent yn canolbwyntio ar gryfhau dull hirdymor, cynaliadwy'r Cyngor o reoli priffyrdd, gan gynnwys deall cyflwr ffyrdd yn y dyfodol a'r risgiau dan wahanol senarios ariannu.

10 Mae'r argymhellion hefyd yn amcanu at wella tryloywder a chryfhau sut y mae risgiau mewn perthynas â phriffyrdd yn cael eu diffinio a'u monitro ar lefel gorfforaethol.

11 Yn olaf, mae'r argymhellion yn amlygu'r angen i gryfhau sut y mae'r Cyngor yn asesu ac yn cyflawni gwerth am arian wrth reoli priffyrdd.

# Ffeithiau a ffigyrau allweddol

- Mae'r Cyngor yn rheoli rhwydwaith sy'n ymestyn dros 3,541km.[1] Hwn yw'r ail fwyaf yng Nghymru. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys:
  - Ffyrdd A – 251km (7% o'r rhwydwaith)
  - Ffyrdd B – 332km (9% o'r rhwydwaith)
  - Ffyrdd C – 1,283km (36% o'r rhwydwaith)
  - Ffyrdd diddosbarth – 1,675km (47% o'r rhwydwaith)
- Rhwydwaith priffyrdd Sir Gâr yw'r trydydd prysuraf yng Nghymru.

- Rhwng 2008-09 a 2024-25, fe wnaeth Cyllid Allanol Cyfun y Cyngor ostwng 0.3% mewn termau real (sef ar ôl addasu ar gyfer effaith chwyddiant).
- £21.52 miliwn: gwariant mewn termau real gan y Cyngor ar briffyrdd a ffyrdd yn 2008-09.
- £13.03 miliwn: gwariant mewn termau real gan y Cyngor ar briffyrdd a ffyrdd yn 2024-25. Mae hyn yn ostyngiad o 40% dros gyfnod o 16 mlynedd.
- Mae'r gyfran o gyfanswm gwariant gwasanaethau'r Cyngor ar briffyrdd a ffyrdd wedi lleihau o 5% yn 2010-11 i 2.3% yn 2024-25. Yn 2024-25, roedd hyn uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 1.99%.
- Yn 2024-25, roedd gwariant cyfartalog y Cyngor am bob cilomedr o ffordd yn £5,317. Mae hyn oddeutu hanner cyfartaledd Cymru, sef £9,640 y cilomedr.

- Mae data cyhoeddedig y Cyngor ar dyllau y rhoddwyd gwybod amdanynt yn dangos cynnydd o 456% – o 1,978 o dyllau yn 2020 i 11,014 yn 2024.[2]

---

[1] gov.uk,RDL0202: Road length (kilometres) by road type and local authority in Great Britain 2024

[2] Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata'r Cyngor a gyflwynwyd yn yr Adroddiad Blynyddol ar Reoli Asedau Priffyrdd 2025

# Ein canfyddiadau

## Mae penderfyniadau ynglŷn ag ariannu dros amser wedi tanseilio cynlluniau hirdymor y Cyngor ar gyfer priffyrdd

12 Mewn termau real (sy'n golygu ar ôl addasu ar gyfer effaith chwyddiant), mae cyllid y Cyngor ar gyfer priffyrdd a ffyrdd wedi gostwng 40% ers 2008-09. Mae hyn yn gyson â'r gostyngiad cyfartalog ar draws yr holl gynghorau yng Nghymru. Mae'r newid hwn wedi cyfyngu ar ei allu i gynllunio ac ariannu gwaith cynnal a chadw priffyrdd ar sail hirdymor, gynaliadwy. Yn yr amser hwnnw, mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer gwasanaethau megis gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Mae bellach yn amcangyfrif bod cost ei ôl-groniad o waith cynnal a chadw priffyrdd yn £77 miliwn o leiaf.

13 Mae Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd (HAMP) 2018 y Cyngor yn amlinellu ei ddull o reoli ei rwydwaith. O ganlyniad i'r cyllid gostyngol, mae'r Cyngor bellach yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg. Mae dull y Cyngor yn gyson â chodau ymarfer cenedlaethol.[3] Mae Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd y Cyngor yn nodi bod y Cyngor bellach yn sicrhau bod y rhwydwaith 'yn cael ei reoli'n dda' yn hytrach nag 'yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda'. Ar y cyfan, mae ei ddull wedi arwain at gyflwr dirywiol ar ffyrdd diddosbarth a chynnydd mewn tyllau y rhoddir gwybod amdanynt.

14 Nid yw cyllid y Cyngor yn ddigon i ymdrin yn effeithiol â chyflwr priffyrdd. Yn 2025-26 a 2026-27, fe ddyrannodd y Cyngor £9.5 miliwn i briffyrdd a ffyrdd. Mae hyn yn cynnwys cyllid grant o £7.9 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ffigwr hwn yn sylweddol is na'r £16 miliwn y mae'r Cyngor yn amcangyfrif bod ei angen arno dros y cyfnod o ddwy flynedd i gynnal a chadw'r rhwydwaith priffyrdd mewn cyflwr digyfnewid (mae hyn yn ei atal rhag dirywio yn unig; dim gwelliant). O ganlyniad, bydd cyflwr ffyrdd yn dirywio ymhellach dros amser.

[3] Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Thrafnidiaeth, 2016, Code of Practice 'Well-managed highway infrastructure'

15 Mae dull seiliedig-ar-risg y Cyngor yn canolbwyntio ar brif ffyrdd ond mae’n arwain at ddirywiad yng nghyflwr ffyrdd diddosbarth. Er gwaethaf gostyngiad mewn termau real yn y cyllid, mae’r Cyngor wedi llwyddo i gynnal cyflwr ei ffyrdd dosbarth A, B ac C. Mae ffyrdd diddosbarth yn rhoi cyfrif am 47% o rwydwaith priffyrdd y sir. Yn wahanol i ffyrdd Dosbarth A, B ac C, nid oes dull y cytunwyd arno’n genedlaethol o asesu a chofnodi cyflwr ffyrdd diddosbarth. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae’r Cyngor wedi datblygu ei ddull ei hun i’w helpu i ddeall cyflwr ei ffyrdd diddosbarth. Mae hyn yn helpu gyda blaenoriaethu ar draws y rhwydwaith cyfan. Dengys data’r Cyngor gynnydd yn nifer y ffyrdd diddosbarth mewn cyflwr coch (y mae angen camau cywirol arnynt ar unwaith). Mae hyn yn creu risg ac fe allai ddwyn canlyniadau sylweddol ar gyfer y rhai sy’n byw mewn cymunedau pellennig ac sy’n dibynnu ar ffyrdd gwledig.

16 Mae cyflwr dirywiol ffyrdd diddosbarth yn adlewyrchu’r cyllid is a neilltuir gan y Cyngor i briffyrdd. Mae ffocws y Cyngor bellach yn fwy ar reoli risgiau i ddiogelwch ar lwybrau sy’n flaenoriaeth uwch, gyda llai o adnoddau ar gael i gadw’r rhwydwaith cyfan, gan gynnwys ffyrdd diddosbarth (47% o’r rhwydwaith yn ôl hyd), mewn cyflwr sefydlog. Mae hyn yn dangos cyfaddawd amlwg, a ysgogir yn rhannol gan benderfyniadau ariannu strategol y Cyngor yn hytrach na gwendidau gweithredol.

## Mae pwyslais cynyddol y Cyngor ar waith cywirol dros atal yn llai cost-effeithiol

17 Nid yw’r Cyngor wastad yn defnyddio ei gyllid cyfyngedig mewn modd mor ddarbodus â phosibl. Mae ei ddull o atgyweirio ffyrdd yn gyfuniad o drin yr wyneb i atal dirywiad ar y naill law a rhoi wyneb newydd i ymdrin â ffyrdd sydd eisoes mewn cyflwr gwael ar y llaw arall. Mae trin yr wyneb yn rhatach (mae’n costio oddeutu traean o gost rhoi wyneb newydd) ac yn para am yn hwy fel rheol. Fodd bynnag, ers 2021-22, mae cyfran y cynlluniau i roi wyneb newydd wedi cynyddu o 38% i 44%. Y rheswm dros hyn yw nad yw rhai ffyrdd yn addas ar gyfer trin yr wyneb mwyach oherwydd cyflwr gwael y strwythurau ffyrdd sylfaenol. O ganlyniad, mae’r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau’n llai effeithlon a darbodus.

18 Mae llai o ffyrdd bellach yn addas ar gyfer triniaethau ataliol, gan atgyfnerthu cylch o atgyweiriadau mwy adweithiol a chostus. Mae hyn, ynghyd â chapasiti cyfyngedig i gynllunio a goruchwylio rhaglenni'n strategol, yn arwain at fwy o ffocws ar reoli ffyrdd yn seiliedig ar eu cyflwr yn hytrach na chyflawni rhaglen strategol tymor hwy. Mae'r ffocws mwy byrdymor hwn yn lleihau'r defnydd o driniaethau ataliol sy'n costio llai dros amser ac a allai fod o gymorth i sicrhau rhwydwaith mwy cydnerth. O ganlyniad, nid yw hi'n glir i'r Cyngor sut y bydd yn symud i ffwrdd oddi wrth ddulliau adweithiol byrdymor i ddulliau tymor hwy.

19 Er bod y Cyngor wedi mabwysiadu dulliau newydd, nid oes ganddo ffordd strwythuredig o asesu a yw'r rheiny'n effeithiol neu'n cynnig gwerth am arian. Er enghraifft, i ymateb i nifer cynyddol y tyllau, mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn tri 'blwch poeth' asffalt. Ond nid yw'r Cyngor yn gwerthuso'n systematig a yw'r dull hwnnw'n cyflawni'r deilliannau a fwriedir. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i ddangos bod y dulliau hyn yn cyfrannu at werth gwell am arian.

20 Nid oes gan y Cyngor gynllun hirdymor y cytunwyd arno i ymdrin â'i ôl-groniad gwerth £77 miliwn o waith cynnal a chadw. Fe gyflwynodd y Cyngor bedwar opsiwn buddsoddi lefel-uchel ar gyfer priffyrdd tuag at ddiwedd 2025 i'r Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd. Mae'r opsiynau hynny'n darparu cyllid blynyddol o naill ai £0.6 miliwn, £1.6 miliwn, £4 miliwn neu £8 miliwn o 2027-28. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi nodi pa mor ddichonadwy yw'r opsiynau hynny o fewn ei sefyllfa ariannol ehangach. Mae Cabinet y Cyngor wedi cytuno, mewn egwyddor, i ddarparu £3 miliwn mewn cyllid yn 2027-28 ond nid yw wedi dynodi lefelau cyllid ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol. Mae'r lefel honno o gyllid islaw'r lefel wastad. Golyga hyn nad yw'r Cyngor wedi mabwysiadu ffordd hirdymor, gynaliadwy o feddwl am ei gyllid ar gyfer priffyrdd.

## Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth fanwl am gyflwr y rhwydwaith ffyrdd ond mae cyfyngiadau i’w ddull seiliedig-ar-risg o flaenoriaethu

21 Mae dull seiliedig-ar-risg y Cyngor o reoli ei briffyrdd yn cyfrannu at gyflwr ffyrdd gwaeth ar lwybrau â blaenoriaeth is sy’n effeithio ar gydnerthedd hirdymor y rhwydwaith ar y cyfan. Mae’n ail-asesu ei raglen o gynlluniau rheoli priffyrdd yn flynyddol, gan ystyried cyflwr ffyrdd yr effeithiwyd arno gan newidiadau yn y tywydd ac ym maint y traffig. Mae Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd y Cyngor yn nodi hierarchaeth ei rwydwaith a ffactorau eraill i oleuo’r asesiad. Mae hierarchaeth y rhwydwaith yn grwpio ffyrdd yn ôl pwysigrwydd a phwrpas. Mae hyn yn helpu’r Cyngor i bennu ffocws gweithgarwch, rheoli risgiau cyfredol i ddiogelwch, a phennu disgwyliadau.

22 Mae set ddata gynhwysfawr a manwl y Cyngor ar gyflwr priffyrdd yn darparu sail wrthrychol ac eglur ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae’r Cyngor yn casglu data helaeth ar gyflwr ffyrdd gan ddefnyddio arolygon sy’n cyrraedd safonau’r diwydiant, data ar ddiffygion ac offeryn dadansoddi delweddau. Wedyn mae’n asesu pob ffordd ar ei rwydwaith, gan gynnwys ffyrdd diddosbarth, gan ddefnyddio chwe ffactor. Mae cynnwys mewnbwn rheolwyr priffyrdd lleol yn helpu i sicrhau bod y Cyngor yn ystyried pob math o ffordd gan gynnwys ffyrdd diddosbarth. Mae hefyd yn dangos pwysigrwydd ffyrdd fel galluogwr allweddol, yn enwedig mewn cymunedau gwledig. Mae’r Cyngor yn rhoi sgôr i bob ffactor i roi uchafswm sgôr o 1,000, fel a nodir yn **Arddangosyn 1** isod. Wedyn mae’n gosod pob cynllun mewn trefn restrol ac yn creu rhestr wedi’i blaenoriaethu yn seiliedig ar y cyllid sydd ar gael.

**Arddangosyn 1: Ffactorau'r Cyngor i flaenoriaethu cynlluniau priffyrdd**

| Ffactor | Uchafswm sgôr y ffactor |
|---|---|
| Data SCANNER[4] | 200 |
| Archwiliad Gweledol Bras[5] | 200 |
| Diffygion yn y Ffordd Gerbydau sy'n Effeithio ar Ddiogelwch | 100 |
| Oed yr Adeiladwaith (oed yr wyneb) | 100 |
| Hierarchaeth y Rhwydwaith | 200 |
| Blaenoriaeth y rheolwr priffyrdd lleol | 200 |
| **Uchafswm sgôr** | **1,000** |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Gâr

23 Er bod y system sgorio'n helpu'r Cyngor i gymharu llwybrau a blaenoriaethu atgyweiriadau, mae rhai cyfyngiadau iddi. Mae'r rhain yn cynnwys:

- nid yw'r Cyngor yn egluro'n gyhoeddus beth yw'r cydbwysedd rhwng y ffactorau sgorio;
- nid yw'r ffactorau'n rhoi ystyriaeth lawn i wybodaeth am ganfyddiad y cyhoedd, ac eithrio tyllau y rhoddwyd gwybod amdanynt; a

[4] Arolwg Asesu Cyflwr Wyneb ar gyfer y Rhwydwaith Ffyrdd Cenedlaethol awtomataidd, gorfodol a ddefnyddir ledled y DU i asesu cyflwr ffyrdd dosbarthiadol (ffyrdd A, B ac C) yw SCANNER. Cynhelir arolygon ar yr un cyflymder â'r traffig gan ddefnyddio synwyryddion wedi'u gosod ar gerbydau gan ddarparwyr achrededig. Mae'n mesur Rhidio, Cracio, Gwead yr wyneb a'i Broffil hydredol (garwedd).

[5] Arolwg gweledol heb beiriannau yw Arolwg Gweledol Bras, a gynhelir fel arfer o gerbyd sy'n symud yn araf ac sy'n cofnodi lefelau dirywiad cyffredinol, nid mesuriadau peirianneg manwl.

- meini prawf aneglur i bennu sut y mae rheolwyr priffyrdd lleol yn blaenoriaethu, a pha gynlluniau i ganolbwyntio arnynt pan fo sgoriau'n gyfartal.

24 O ganlyniad i'r cyfyngiadau hyn, nid yw'r Cyngor yn hysbysu cynghorwyr na'r cyhoedd yn glir pam y buddsoddir mewn rhai ffyrdd tra na fuddsoddir mewn eraill. Gall y Cyngor fod yn colli cyfleoedd hefyd i ddefnyddio gwybodaeth am ganfyddiad y cyhoedd i ategu ei ddealltwriaeth am brofiad defnyddwyr ffyrdd o'r rhwydwaith.

25 Mae'r Cyngor yn dilyn arferion sefydledig y diwydiant a safonau cenedlaethol i reoli cynlluniau priffyrdd. Mae hyn yn helpu cynlluniau i gyrraedd lefelau disgwyliedig o ran ansawdd a chost. Mae'r trefniadau hynny'n darparu fframwaith eglur ar gyfer rheolaeth o ddydd i ddydd ar waith cynnal a chadw a gwella.

## Mae gwendidau o ran adrodd ar berfformiad a risg yn cyfyngu ar oruchwyliaeth effeithiol

26 Nid yw'r Cyngor yn diffinio'r risgiau i'w briffyrdd yn eglur yn ei gofrestr risgiau corfforaethol. Mae'n canolbwyntio ar ddirywiad fel mater cyfredol, yn hytrach na nodi risgiau ac effeithiau posibl yn y dyfodol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anos i'r Cyngor ddatblygu ac asesu camau rheoli effeithiol. Mae hyn yn lleihau cyd-ddealltwriaeth am ganlyniadau tymor canolig a hir ei ddull cyfredol.

27 Mae'r Cyngor yn adrodd yn flynyddol ar ei Gynllun Rheoli Asedau Priffyrdd. Mae'r adroddiad hwn ar gael yn gyhoeddus ac yn cael ei ystyried gan y pwyllgor craffu. Ond, oherwydd argaeledd data, cynhyrchir yr adroddiad o leiaf chwe mis ar ôl diwedd y flwyddyn.

28 Mae gan y Cyngor beth wmbredd o ddata ar berfformiad a chyflwr mewn perthynas â phriffyrdd. Mae wedi darparu amrywiaeth o opsiynau ariannu ac wedi nodi effaith bosibl y rhain dros amser ar gyflwr ffyrdd ar draws pob dosbarth. Fodd bynnag, nid yw'n cysylltu'r wybodaeth hon yn gyson â dewisiadau strategol nac â'r effaith ar ddeilliannau. Mae hyn yn cyfyngu ar allu cynghorwyr i:

- ddeall canlyniadau cyfyngiadau ar gyllid;
- deall penderfyniadau ynglŷn â blaenoriaethu; ac
- asesu a yw’r dull cyfredol o wario ar briffyrdd yn dwyn gwerth am arian a deilliannau ehangach o ran llesiant.

# Argymhellion

**A1** **Er mwyn cryfhau'r modd y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, cynyddu i'r eithaf y cyllid sydd ar gael a nodi dull hirdymor eglur o reoli ei rwydwaith priffyrdd:**

**1.1** Dylai'r Cyngor ddatblygu a chytuno ar fframwaith tymor hwy ar gyfer rheoli ei rwydwaith priffyrdd (**paragraff 20**). Wrth wneud hynny, dylai:

- asesu mwy o weithgarwch ataliol a'i roi ar waith;
- dadansoddi sut y bydd y Cyngor yn cynyddu i'r eithaf y cyllid sydd ar gael;
- asesu'r risgiau ar gyfer yr ystod o ddulliau;
- nodi sut y mae'r fframwaith yn ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy; a
- nodi deilliannau CAMPUS sy'n gysylltiedig â'r amcanion llesiant.

**1.2** Wedyn dylai'r Cyngor gyfleu ei fframwaith, gan gynnwys ei ddull o flaenoriaethu, yn eglur i'r cyhoedd (**paragraff 24**).

**A2** **Er mwyn cryfhau ei drefniadau i sicrhau gwerth am arian**, dylai'r Cyngor ddatblygu dull o asesu'r gwerth am arian ar y cyfan a gyflawnir gan ei ddulliau o reoli ei briffyrdd (**paragraff 19**).

**A3** Er mwyn cryfhau goruchwyliaeth a threfniadau rheoli risgiau corfforaethol:

**3.1** dylai'r Cyngor adolygu'r hyn a gofnodwyd ar ei gofrestr risgiau corfforaethol mewn perthynas â phriffyrdd i sicrhau ei fod yn diffinio achos, effaith a chamau rheoli priodol ar gyfer y risg mewn modd eglur (**paragraff 26**);

**3.2** dylai'r Cyngor ddatblygu mecanwaith priodol a chymesur i gasglu gwybodaeth yn gyson ynghylch canfyddiad y cyhoedd am briffyrdd ac adrodd ar hyn wrth aelodau (**paragraff 24**).

**A4** **I gryfhau'r modd y cyflawnir ei weithgareddau rheoli priffyrdd:**

**4.1** dylai'r Cyngor asesu'r sgiliau a'r capasiti y mae eu hangen arno i gyflawni dull mwy strategol, gan gynnwys cynllunio strategol (**paragraff 18**);

**4.2** wedyn dylai'r Cyngor sicrhau bod capasiti a sgiliau arbenigol yn cyd-fynd â'i fframwaith trwy gynllun darparu adnoddau (**paragraff 18**).

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Roedd yr archwiliad yn ymwneud â dull y Cyngor o reoli ei rwydwaith priffyrdd.

Fe gynhaliom ni'r archwiliad hwn rhwng mis Mawrth a mis Mai 2026.

## Cwestiynau a meini prawf yr archwiliad

Roeddem yn ceisio ateb y cwestiynau allweddol hyn:

- A oes gan y Cyngor ddull effeithiol o adnabod a blaenoriaethu ei brosiectau cynnal a chadw a gwella priffyrdd?
- A oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol i gyflawni a rheoli ei brosiectau cynnal a chadw a gwella priffyrdd?
- A oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol i oruchwylio ac adolygu'r modd y cyflawnir ei brosiectau cynnal a chadw a gwella priffyrdd?

### Meini Prawf

Fe ddatblygom ni'r meini prawf ar gyfer yr archwiliad hwn gan dynnu ar y pum ffordd o weithio dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Fe dynnom ni hefyd ar safonau cydnabyddedig eraill y diwydiant priffyrdd.

## Dulliau

Fe gynhaliom ni'r archwiliad hwn trwy:

- adolygu dogfennau allweddol y Cyngor;
- cyfweld â swyddogion perthnasol a'r Aelodau Cabinet dros briffyrdd a chynaliadwyedd; a
- dadansoddi data perthnasol a gyhoeddwyd a data a ddelir gan y Cyngor.

# 2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Rhwydwaith priffyrdd** | Yr holl ffyrdd, palmentydd a seilwaith cysylltiedig y mae'r Cyngor yn gyfrifol am eu cynnal a'u cadw. Nid yw hyn yn cynnwys traffyrdd a chefnffyrdd y mae Llywodraeth Cymru'n eu cynnal a'u cadw. |
| **Ôl-groniad o waith cynnal a chadw priffyrdd** | Cost amcangyfrifedig atgyweiriadau y mae eu hangen i wella ffyrdd fel eu bod yn cyrraedd safon dderbyniol nad ydynt wedi cael eu gwneud eto. |
| **Cyflwr digyfnewid** | Lefel o wariant sy'n atal ffyrdd rhag mynd yn waeth ar y cyfan ond nad yw'n gwella eu cyflwr nac yn lleihau'r ôl-groniad. |
| **Cynnal a chadw ataliol** | Gwaith wedi'i gynllunio a wneir yn gynnar i atal ffyrdd rhag dirywio, sydd fel arfer yn rhatach dros yr hirdymor. |
| **Cynnal a chadw adweithiol neu gywirol** | Atgyweiriadau a wneir pan fo ffyrdd eisoes wedi dirywio, sy'n aml yn fwy drud ac yn tarfu'n fwy. |
| **Trin yr wyneb** | Triniaeth ataliol sy'n selio ac yn diogelu wyneb y ffordd i estyn ei oes. |
| **Rhoi wyneb newydd** | Disodli haen uchaf ffordd ar ôl iddi ddirywio'n sylweddol. |

| Term | Disgrifiad |
| --- | --- |
| **Cost oes gyfan** | Cyfanswm cost ased trwy gydol ei oes, gan gynnwys ei adeiladu, ei gynnal a’i gadw a’i ddisodli yn y pen draw. |
| **Gwerth am arian** | Defnyddio adnoddau’n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol i gyflawni’r deilliannau gorau posibl. |
| **Egwyddor datblygu cynaliadwy** | Diffinnir yr egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd sy’n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. |
| **Amcanion llesiant** | Y nodau a bennwyd gan y Cyngor i gyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol, megis cymunedau cydnerth a llewyrch. |
| **Dull sy’n seiliedig ar risg** | Blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar risgiau a aseswyd megis diogelwch, defnydd a chyflwr. |
| **Hierarchaeth y rhwydwaith** | System sy’n grwpio ffyrdd yn ôl eu pwysigrwydd a’u swyddogaeth i helpu i flaenoriaethu gwaith cynnal a chadw. |
| **Data SCANNER** | Arolwg cenedlaethol sy’n defnyddio offer arbenigol i fesur cyflwr prif ffyrdd. |
| **Ffyrdd di-ddosbarth** | Nid yw ffyrdd lleol wedi’u dynodi’n ffyrdd A, B neu C, a hwythau fel arfer yn rhai preswyl neu wledig. |
| **Sgôr CAG (Coch-Ambr-Gwyrdd)** | System a ddefnyddir i ddangos cyflwr ffyrdd, lle mae coch yn dynodi’r cyflwr gwaethaf. |

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Ffordd cyflwr coch** | Ffordd y canfuwyd mewn asesiad ei bod yn y band cyflwr gwaethaf a bod angen ei chynnal a'i chadw. |
| **Cofrestr risgiau corfforaethol** | Prif restr y Cyngor o risgiau allweddol a allai effeithio ar ei allu i ddarparu gwasanaethau. |
| **Fforddiadwyedd** | Pa un a yw'r Cyngor yn realistig yn gallu ariannu gweithgaredd yn awr ac yn y dyfodol. |
| **Data ar ganfyddiad y cyhoedd** | Gwybodaeth am farn a phrofiadau trigolion, megis bodlonrwydd ar gyflwr ffyrdd. |
| **Blwch poeth** | Mae'r cerbydau hyn yn galluogi'r Cyngor i gyflawni atgyweiriadau o ansawdd da sy'n para am yn hwy am bod asffalt yn cael ei osod pan fo'n boeth. |
| **Cyllid Allanol Cyfun (AEF)** | Prif gyllid Llywodraeth Cymru i gynghorau, sy'n cynnwys y Grant Cynnal Refeniw ac ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu. |

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.